

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd
a gynhaliwyd yn Aberystwyth
Ddydd Gwener, 22 Ebrill 2016

Presennol:

Ymddiriedolwyr

Rhodri Glyn Thomas, Llywydd	Tricia Carter Is-lywydd	Colin R. John, Trysorydd
Huw Williams	Phil Cooper	Susan Davies
Roy Roberts	Roy Evans	Richard Houdmont
Liz Siberry	Arglwydd Aberdâr	Iwan Davies

Tîm Gweithredol

Linda Tomos	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol
Pedr ap Llwyd	Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus

Hefyd yn bresennol:

Mary Ellis	MALD
Kate Clark	MALD
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth
Siân Thomas	Cyngor Partneriaeth
Annwen Isaac	Staff
Carol Edwards	Staff
Mererid Jones	Staff

1.1 Croeso'r Llywydd ac Ymddiheuriadau

Croesawodd y Llywydd, Rhodri Glyn Thomas, bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod, gan nodi ei bod yn anrhydedd iddo gael ei benodi yn Llywydd a chadeirio ei gyfarfod cyntaf o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Pedr ap Llwyd oedd yn mynychu ei gyfarfod cyntaf yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus, ac i Carol Edwards, sydd wedi ei phenodi yn Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc y Bwrdd.

Nodwyd bod Michael Trickey wedi ymddiswyddo fel Ymddiriedolwr, a diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r Bwrdd. Diolchwyd hefyd i Tricia Carter, oedd yn mynychu ei chyfarfod olaf, am ei chyfraniad fel Ymddiriedolwr ac Is-Lywydd.

Roedd Hugh Thomas a Dyfrig Jones wedi ymddiheuro am eu habsenoldeb.

1.2 Datgan Buddiannau

Datganodd Tricia Carter fudd yn y materion hynny y mae'r Llyfrgell yn eu trafod o bryd i'w gilydd gyda Llywodraeth Cymru gan ei bod yn: Gyfarwyddwr Anweithredol ar Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, Llywodraeth Cymru; Gyfarwyddwr Anweithredol o Bwyllgor Llywodraethiant Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru; ac yn aelod o Fwrdd Rhaglen Awdurdod Refeniw Cymru, Adran Cyllid a Busnes y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru.

Yn ychwanegol, datganodd Tricia Carter ddiddordeb penodol ynghylch eitem 3.5 ar yr agenda, sef Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ei bod yn eistedd ar bwyllgor sy'n gysylltiedig â'r mater hwn.

Datganodd Huw Williams ei fod yn aelod o Geldards LLP ac ers 1 Medi 2015 mae Geldards wedi bod yn un o nifer o gwmnïau a benodwyd i Fframwaith Cyfreithwyr Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Cymru y mae'r Llyfrgell yn bwriadu ei ddefnyddio i fodloni ei gofynion o ran gwasanaethau cyfreithiol. Hefyd, mae Geldards yn parhau i gynghori'r Llyfrgell ar nifer o faterion parhaus dan gytundeb gwasanaethau cyfreithiol blaenorol a ddyfarnwyd trwy dendr cystadleuol.

1.3 Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, serch hynny nododd Huw Williams yr angen i gywiro pwynt 1.2 i gynnwys y ffaith ei fod datgan buddiant yn y mater o ddarparu hyfforddiant i Ymddiriedolwyr.

O dan 6.2, cwestiynwyd y datganiad ynglyn â'r Corff Ymgynghorol gan yr Arglwydd Aberdâr a adroddai mai'r Corff yw "prif gyfrwng y Llyfrgell i ymgysylltu â'r cyhoedd". Cadarnhaodd Susan Davies fod y datganiad yma yn gywir yn ymarferol o dan y darpariaethau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn y Siarter a'r Statudau cyfredol, pan gafodd Llys y Llywodraethwyr ei ddisodli gan y Corff Ymgynghorol. Cytunodd Huw Williams gyda'r datganiad yma.

Cytunwyd i ail ymweld â chyfansoddiad a chylch gorchwyl y Corff Ymgynghorol.

Gweithredu: Aelodau'r Tim Gweithredol i ystyried dyfodol y Corff a chyflwyno argymhellion i'r Bwrdd.

Dylid cynnwys y Corff Ymgynghorol fel eitem ar yr agenda ar gyfer cyfarfod Gorffennaf o'r Bwrdd.

Nododd Susan Davies fod angen cywiriad o dan Adran 7 yn y cofnodion Saesneg i ddarllen "interim President".

Adran 2 Materion 'byw' ac angen penderfyniadau

2.1 Papur Codi Arian

Cyflwynodd Linda Tomos bapur drafft codi arian i'w drafod. Nodwyd bod y papur yn cydnabod y byddai gan pob adran o fewn y Llyfrgell gyfrifoldeb dros godi arian o hyn ymlaen, ac y byddai tasgau a thargedau codi arian yn ffurfio rhan o'u gwaith, yn hytrach na bod hyn wedi ei ganoli o fewn un adran fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae ailstrwythuro'r Adran Hyrwyddo a Marchnata ar fin digwydd, fydd yn gweld Swyddog Codi Arian a Swyddog Marchnata yn cydlynu'r gwaith o ddydd i

ddydd, ond y Grŵp Cyflawni fydd â'r cyfrifoldeb am weithredu'r Strategaeth Codi Arian. Nodwyd y bydd papur manylach yn cael ei baratoi erbyn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Croesawyd y papur trafod gan yr Aelodau, a chodwyd nifer o gwestiynau ynglyn â'i gynnwys. Cytunwyd y dylai'r Aelodau anfon eu sylwadau i Linda ar ôl y cyfarfod.

2.2 Drafft Cynllun Gweithredu 2016 – 2017

Cyflwynodd Linda Tomos ail ddrafft Cynllun Gweithredu 2016 – 2017 oedd yn ymgorffori'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau yn dilyn y cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror. Mi fydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog newydd ym mis Mai, ac mi fydd Linda Tomos yn medru adrodd yn ôl i'r Aelodau ar ymateb y Gweinidog yng nghyfarfod Gorffennaf.

Nododd Dr. Liz Siberry y byddai'n fuddiol cynnwys llythyr eglurhaol gyda'r Cynllun yn crybwyll ehangder gwaith a chyfrifoldebau'r Llyfrgell, ac yn nodi ystod ei chasgliadau, i osod cyd-destun i'r Cynllun

Nododd Tricia Carter y medrai bod yn ddefnyddiol i gael dogfen ar gyfer y Gweinidog, ond dogfen mwy manwl ar gyfer yr Aelodau, sydd yn cynnwys mwy o ystadegau a gwybodaeth nac sydd yn y ddogfen bresennol. Cytunodd Linda Tomos gyda'r awgrym yma, ond byddai'n croesawu mewnbwn gan yr Aelodau o ble yr hoffent weld mwy o fanylder.

Gweithredu: Linda Tomos i ddrafftio llythyr i osod y cyd-destun i'w anfon gyda'r Cynllun Gweithredu i'r Gweinidog.

Adran 3 Gwybodaeth a diweddariadau

3.1 Dogfen ffocws

Nodwyd cynnwys y ddogfen.

Nodwyd peth pryder ynglyn â swydd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, gan nad oes symud ymlaen wedi bod ar baratoi disgrifiad swydd eto. Nodwyd y byddai'r Llywydd, Trysorydd a Linda Tomos yn cyfarfod ar 8ed Mai i drafod y camau nesaf a dechrau drafftio disgrifiad i'w ystyried yn llawn wedyn gan yr Aelodau, Gwahoddwyd yr Aelodau i feddwl am pa sgiliau sydd eu hangen a pha fath o berson maent yn edrych amdanynt, a chyflwyno eu sylwadau i'r Llywydd.

Gweithredu: Aelodau i gyflwyno sylwadau ynglyn â manyleb person y Llyfrgellydd nesaf i'r Llywydd erbyn 8ed. Mai

3.2 Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Nododd David Michael fod y gwaith bron a'i gwblhau, gyda'r swyddfeydd, maes parcio a'r ystafell ddarllen wedi eu gorffen, ac mi fydd gwaith ar y cwrt mewnlenni yn cael ei gwblhau wythnos nesaf. Mi fydd staff y Comisiwn yn dechrau symud i'r Llyfrgell ar 3ydd Mai.

3.3 Materion yn ymwneud â'r adeilad

Mynegodd Linda Tomos siom nad oedd y Llyfrgell wedi clywed yn ôl gan y Llywodraeth ynglyn â'r cais o £7.5 miliwn i wella tu blaen yr adeilad, a gofynnodd am ganiatad yr Aelodau i godi hyn gyda'r Gweinidog newydd.

Nododd yr Aelodau eu siom hefyd am yr oedi ynglyn â'r penderfyniad.

Gweithredu: Llyfrgellydd i drafod y cais am £7.5 miliwn gyda'r Gweinidog newydd

3.4 Adroddiad Uchafbwyntiau Adrannau a'r Cyfarwyddiaethau

Nodwyd cynnwys yr adroddiad, a'i fod yn gyhwysfawr tu hwnt.

3.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'n fwriad gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymweld â'r Llyfrgell cyn hir i gwrdd y rheolwyr hŷn. Roedd yr Aelodau yn awyddus i gael cyflwyniad gan y Comisiynydd felly mi fyddwn yn estyn gwahoddiad iddi ddod i'r Llyfrgell ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi.

Nodwyd mai David Michael yw'r swyddog â chyfirfoldeb, ac ef fydd yn gweithio ar gynllun gweithredu i'w gyflwyno i'r Bwrdd.

Gweithredu: Carol Edwards i estyn gwahoddiad i Sophie Howe i fynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Medi

3.6 Dangosyddion Cyflawni Ionawr – Mawrth 2016

Nodwyd canlyniadau'r dangosyddion cyflawni. Mi fydd y dangosyddion yn cael eu hystyried yn fanwl gan y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, ac mi fydd y sylwadau sydd wedi eu gwneud gan yr Aelodau yn cael sylw gan y Pwyllgor hwnnw, ac yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Bwrdd.

3.7 Penodi Is-lywydd ac Ymddiriedolwyr

Mi fydd cyfnod Roy Evans a Roy Roberts fel Ymddiriedolwyr yn dirwyn i ben ym mis Tachwedd, ac mae Michael Trickey wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad. Mi fydd angen felly i'r broses benodi chwilio am Is Lywydd, a thri/tair ymddiriedolwr. Bydd y broses yn cael ei rhedeg ar y cyd gan y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru. Bydd penodiad yr Is-Lywydd ac un Ymddiriedolwr yn cael ei wneud gan Weinidogion mewn ymgynhoriad gydag Ymddiriedolwyr y Llyfrgell, tra bydd y ddau/dwy Ymddiriedolwr arall yn apwyntiadau gan y Llyfrgell, yn unol â Siarter, Statudau a Rheoliadau 'r Llyfrgell. Trafodwyd y broses apwyntio gan yr Aelodau a'r pwysigrwydd o sicrhau ymgynhori priodol gyda'r Ymddiriedolwyr yn achos apwyntiadau gan y Gweinidog.

Gofynnwyd am ganlyniad yr awdit sgiliau diweddar, ac mi fydd hyn yn cael ei rannu gyda'r Aelodau yn ystod yr wythnos nesaf. Yr awdit hefyd fydd yn llywio'r broses penodi o ran adnabod bylchau sgiliau sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

3.8 Safonau'r Iaith Gymraeg

Cyflwynodd Pedr ap Llwyd y Safonau sydd wedi eu hargymell i'r Llyfrgell, dros 150 ohonynt. Nodwyd bod y Tim gweithredol wedi eu hystyried yn ofalus ac wedi dod i'r penderfyniad i'w derbyn yn ddiwrthwynebiad. Gwahoddwyd yr Ymddiriedolwyr i gyflwyno sylwadau i Pedr ap Llwyd erbyn 6ed Mai.

Gweithredu: Aelodau i anfon sylwadau ar Safonau'r Iaith Gymraeg at Pedr erbyn 6ed Mai

Adran 4 Materion ariannol

4.1 Adroddiad cyllidebol hyd 31/3/16

Cyflwynwyd yr adroddiad cyllidebol gan Mererid Jones a nodwyd y sefyllfa ariannol gan yr Aelodau.

4.2 Y diweddaraf ar Gyllideb 2016 – 17

Cyflwynwyd manylion cyllideb 2016 – 2017 gan Mererid Jones, a nodwyd y manylion gan yr Aelodau. Cytunwyd y dylid cadw llygad ar y sefyllfa ariannol a'r targedau ac ail ymweld â hyn yn y cyfarfod nesaf.

Cytunodd Mererid Jones i baratoi nodyn i'r Aelodau ar incwm masnachol

Gweithredu: Mererid Jones i baratoi papur ar incwm masnachol i'r Aelodau

4.3 Is-bwyllgor Cynllunio Ariannol

Cyflwynodd y Trysordd adroddiad llafar yn nodi fod yr Is-Bwyllgor wedi cyfarfod ar ddau achlysur, ac wedi cytuno i adolygu'r gyllideb tymor byr, adolygu geiriad y Polisi Wrth Gefn, ac adolygu'r cronfeydd arian preifat.

Bydd y Polisi Wrth Gefn diwygieidig sydd wedi ei ddrafftio yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Awdit nesaf. Mae'r Is-Bwyllgor hefyd wedi dadansoddi cronfeydd cyfyngedig a rhai anghyfnyedig, ac wedi adnabod cyfleoedd ble gall rhain gael eu defnyddio er budd y Llyfrgell.

Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu'r Is-Bwyllgor fel un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd. Cytunwyd y dylid aros nes gweld canlyniadauac argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru cyn gwneud hynny.

Adran 5 Busnes y Llywydd a'r Prif Weithredwr

5.1 Busnes y Llywydd

Nododd y Llywydd ei fod wedi bod mewn trafodaethau gyda'r Athro Medwin Hughes o Brifysgol y Drindod Dewi Sant ynglyn â phartneriaethau posibl yn y maes digidol, ac edrych eto ar ail sefydlu'r Gadair Ddigidol. Mi fydd y Llywydd yn cyflwyno papur yn amlinellu'r syniadau a grybwyllwyd.

Gofynnodd am gytundeb yr Aelodau i siarad ymhellach gyda Medwin Hughes am hyn, ac fe gytunwyd i'r cais.

Gweithredu: Llywydd i drafod ymhellach gyda Medwin Hughes, ac i baratoi papur ar y trafodaethau gyda Medwin Hughes, a'r syniadau/argymhellion yn deillio o hynny.

5.2 Busnes y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Yn dilyn cyflwyno'r papur, Cymru Greadigol / Creative Nation yn y sesiwn gaeedig, ar y bartneriaeth rhwng y Llyfrgell a'r BBC, gwahoddodd Linda Tomos sylwadau gan yr Aelodau ar y bartneriaeth arfaethedig yma.

Gweithredu: Aelodau i gyflwyno sylwadau ar y bartneriaeth rhwng y Llyfrgell a'r BBC i Linda Tomos

Adran 6 Unrhyw fater arall

Gan mai dyma gyfarfod olaf Tricia Carter, cyflwynwyd rhodd iddi gan y Llywdd a diolchwyd iddi am ei gwasanaeth clodwiw i'r Bwrdd a'r Llyfrgell yn ystod ei chyfnod fel Ymddiriedolwr. Ategwyd y diolchiadau yma gan y Trysorydd a'r Llyfrgellydd.

Diolchodd Tricia Carter hithau i'r Aelodau a'r Tim Gweithredol am eu dymuniadau da ac am eu cydweithrediad yn ystod ei chyfnod fel Is-Lywydd a Llywydd dros-dro.